# Adroddiad Arolygu

**Pobl Bach Nurseries Ltd (Johnstown)**

**20 Pondside**
**Tre-ioan**
**Caerfyrddin**
**SA31 3HU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# About Pobl Bach Nurseries Ltd (Johnstown)

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Pobl Bach Nurseries Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 51 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 26 Mai 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus, yn hyderus ac wedi setlo. Maent yn teimlo'n ddiogel ac maent yn meithrin cydberthnasau a chyfeillgarwch da. Caiff y plant ddewisiadau a chyfleoedd da i fod yn annibynnol ac i wneud penderfyniadau am yr hyn y maent yn dymuno ei wneud.

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol ac i gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn garedig ac yn ofalgar tuag at y plant, ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r staff yn wybodus ac maent yn parhau i ddatblygu eu gwaith cynllunio ar gyfer dysgu a datblygiad y plant.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r cyfarpar a'r adnoddau o ansawdd da, yn lân ac o fewn cyrraedd y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod mesurau diogel ar waith i greu amgylchedd dysgu diogel.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi bod yn gweithio'n ddiwyd i wella a datblygu'r gwasanaeth. Maent yn ymrwymedig i wella'r gwasanaeth yn barhaus ac maent wedi cyflwyno newidiadau effeithiol ers yr arolygiad diwethaf. Maent yn gwerthfawrogi eu staff ac yn rhoi prosesau sefydlu clir iddynt, gan sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant parhaus. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau hirsefydledig â'r ysgolion lleol.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac yn hyderus ac yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, maent yn dewis lle maent am chwarae, a chyda phwy, megis arbrofi mewn twba dŵr. Mae'r plant yn dangos pan fyddant wedi cael digon i'w fwyta, neu os hoffent fynd i gysgu, ac mae'r staff yn ymateb i ddymuniadau'r plant. Caiff llais y plentyn ei barchu. Er enghraifft, wrth baratoi i glirio'r hambwrdd twff deinosoriaid, cydnabu'r staff fod y plant yn dal i ddangos diddordeb ynddo ac felly gwnaethant ei adael er mwyn i'r plant barhau i chwarae ag ef.

Mae bron pob plentyn wedi setlo gyda rhai yn ceisio cysylltiad agosach a sicrwydd gan y staff.
Gwelsom blant ar wahanol gyfnodau o'u sesiynau ymgartrefu yn cael eu cefnogi gan y staff gyda llawer o gysylltiad a rhyngweithio agos. Gwelsom blant hŷn yn cyrraedd ar ôl sesiynau yn yr ysgol ac yn cael eu croesawu'n gynnes, ac roedd y staff yn mynd atynt mewn ffordd effeithiol a sensitif. Er enghraifft, wrth iddynt gyrraedd, roedd y pant yn fodlon wrth arsylwi gweithgareddau a oedd yn mynd rhagddynt a rhyngweithio â'r staff o ran lle roeddent am chwarae neu gymryd rhan.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn garedig ac yn gadarnhaol. Mae'r plant yn ymateb ac yn cydweithredu gyda phlant eraill a'r staff.  Mae'r plant yn ymddiddori yn y gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt. Er enghraifft, mae'r plant yn edrych ymlaen at gasglu eitemau ar gyfer gweithgaredd y diwrnod ar daith gerdded natur. Yn ystod y gweithgaredd awyr agored hwn, pwyntiodd y plant at awyren yn yr awyr yn frwdfrydig, gan sbarduno sgwrs rhwng y plant a'r staff o ran ble gall yr awyren fod yn hedfan iddo. Yn yr ardal dan do, mae'r plant yn sgwrsio'n frwdfrydig yn ystod gweithgaredd gwneud ffon hud, lle maent yn drafod meintiau brigau a ffyn, *"I want a big stick, this long. A giant one".* Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn dangos bod y cydberthnasau'n gynnes, ac mae'r plant yn amlwg yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus.

Mae'r plant yn dangos diddordeb yn eu chwarae ac yn mwynhau detholiad da o gyfleoedd pwrpasol. Gallant archwilio amrywiaeth dda o adnoddau, gan gario'r rhain i wahanol ardaloedd wrth i'w syniadau a'u creadigrwydd ddatblygu. Er enghraifft, wrth siarad am eira, gwelsom y plant yn gosod deinosoriaid o dan gerrig ac eiddew, ac yn defnyddio rhawiau i dywallt blawd i'r colandrau, er mwyn ei ysgeintio dros y deinosoriaid. Gall y plant hefyd ymlacio a chael cyfnodau tawel. Maent yn cymryd eu hamser i archwilio'r amgylchedd dan do yn ddiogel ac maent yn cychwyn eu chwarae eu hunain. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau'r profiad synhwyraidd o adeiladu iglw gyda blawd a chiwbiau rhew.

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n arwain at ymdeimlad da o gyflawniad a hunan-barch. Er enghraifft, addurno coeden go iawn â hidlwyr coffi wrth iddynt ddysgu am y gaeaf. Yn yr ardal chwarae annibynnol, gwelsom y plant yn tacluso'n hyderus

drwy ddefnyddio cyfarpar glanhau maint plant, yn golchi eu dwylo a'u hwynebau ac yn sychu eu trwynau â hancesi papur. Mae gan y plant boteli dŵr eu hunain ac maent yn helpu eu hunain drwy gydol y sesiwn. Mae drychau yn y rhan hon o'r ardal ac mae'r plant yn mwynhau gwylio eu hunain wrth iddynt gyflawni'r tasgau hyn yn annibynnol.  Gwelsom y plant yn mynd i'r toiled yn annibynnol, gan olchi eu dwylo a bwydo eu hunain.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff wedi meithrin dealltwriaeth o'r polisïau a'r gweithdrefnau ers yr arolygiad diwethaf ac maent yn hyderus wrth siarad am eu rolau a'u cyfrifoldebau â balchder. Mae'r staff yn deall ac yn rhoi arferion cyson ar waith ac mae gan aelodau newydd o'r staff fodelau rôl effeithiol ar waith, sy'n eu galluogi i ddysgu a deall gan ei gilydd. Mae'r staff yn hyderus o ran eu dealltwriaeth o weithdrefnau diogelu a sut i roi gwybod am unrhyw bryderon. Maent yn mwynhau'r cysondeb o weithio'n agos gyda'r un staff. Mae'r staff hefyd yn gwerthfawrogi cyfleoedd yn ystod y cyfnodau pontio i gydweithio â staff o wahanol unedau er mwyn sicrhau cyfnod pontio llwyddiannus a didrafferth i'r holl blant. Mae'r staff yn wybodus am anghenion unigol megis alergeddau ac anoddefiadau. Gwnaethant ddweud wrthym fod y fwydlen newydd wedi'i rhoi ar waith yn llwyddiannus a bod y plant yn mwynhau'r hyn y maent yn ei fwyta i frecwast, byrbryd, cinio a the. Mae arferion hylendid ar waith gyda'r staff yn gwisgo ffedogau a menig ar adegau priodol drwy gydol y dydd megis amseroedd newid cewynnau. Mae'r staff yn annog y plant i olchi eu dwylo ac maent yn eu hatgoffa am yr angen i ystyried hylendid ar adegau prydau bwyd a chwarae. Gwelsom y staff yn cofnodi profiadau'r plant o ddydd id dydd drwy ddefnyddio system electronig. Dangosodd y staff sut roeddent yn cofnodi damweiniau neu feddyginiaeth yn effeithiol drwy ddefnyddio'r un dull, gan alluogi'r rhieni i gael gafael arno, ymateb iddo, ei gydnabod a rhoi cydsyniad ar ei gyfer.

Mae'r staff yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant ac maent yn ymateb yn dda i'w hanghenion. Maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r plant yn gynnes, gan ddangos caredigrwydd. Mae'r staff yn sensitif i anghenion eraill, gan ddangos moesau da. Mae rhyngweithio'r staff yn mynd law yn llaw â dull tawel y mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol iddo. Er enghraifft, *“take your time”, “that’s a good idea”, “shall we try that?” “Would you like a go? That’s a good job – well done”*.

Mae'r staff yn mwynhau'r profiad o ddatblygu'r prosesau cynllunio newydd yn y lleoliad. Maent yn canolbwyntio ar ddiddordebau'r plant ac yn rhoi ystod o brofiadau cyffrous iddynt. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau archwilio syniadau newydd, gan arwain at gyflwyno ystod o weithgareddau arloesol i'r drefn wythnosol. Er enghraifft, gwelsom y staff yn ymateb i syniadau'r plant am eira ac yn gosod hambwrdd twff gyda blawd arno er mwyn iddynt archwilio'r cysyniad o blu eira. Mae brwdfrydedd a chymhelliant y staff yn effeithio'n gadarnhaol ar gyfleoedd chwarae a dysgu'r plant o ddydd i ddydd, gan arwain at blant hapus sy'n cymryd diddordeb yn eu chwarae.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau a pholisïau effeithiol ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r lleoliad yn groesawgar a chaiff ei gynnal yn dda iawn â mannau agored a mynedfeydd ac allanfeydd clir. Caiff ymarferion tân a phrosesau gwagio'r adeilad eu hymarfer yn effeithiol, a chaiff y cyfarpar tân ei wasanaethu a'i leoli mewn mannau priodol. Mae gwiriadau eraill o'r amgylchedd a diogelwch yr adeilad wedi'u cwblhau a'u dogfennu'n gywir. Mae boeleri newydd wedi cael eu gosod yn sicrhau bod y lleoliad yn gynnes ac wedi'i wresogi'n briodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw ystod o asesiadau risg pwrpasol sy'n cael eu hadolygu a'u haddasu'n unol ag arferion a gweithgareddau'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn cynnig ardal swyddfa lle caiff yr holl gofnodion eu storio'n gyfrinachol. Caiff arddangosiadau pellach o bolisïau, gweithdrefnau, tystysgrifau dilys, llenyddiaeth diogelu a gwybodaeth am y staff eu harddangos mewn ardaloedd sydd ar gael i'r rhieni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau diogelwch pawb ar y safle. Maent yn cofnodi cofrestrau'r staff a'r plant ar system electronig ac yn sicrhau bod yr holl ymwelwyr yn llofnodi wrth gyrraedd a gadael y safle.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd sy'n lân, yn groesawgar ac yn diwallu anghenion y plant, gan gynnig cyfleoedd chwarae cyfoethog. Er enghraifft, mae ardaloedd ar gyfer chwarae synhwyraidd ac archwiliol lle gall y plant feithrin eu sgiliau datrys problemau Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y cynllun yn cynnig ardaloedd sy'n addas i grwpiau oedran gwahanol. Gwnaethant ddweud wrthym am gynlluniau sydd ar droed i adnewyddu ail lawr y lleoliad ar ôl cael grant. Mae'r staff yn gyffrous a gwnaethant ddweud wrthym am y manteision y bydd y gwaith adnewyddu hwn yn eu cyflwyno i'r ardal hon, gan gynnig cyfleoedd pellach i'r pant symud yn rhydd a datblygu eu hannibyniaeth. Er bod y bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn goruchwylio'r plant bob amser, maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu ardaloedd chwarae agored dan do ac yn yr awyr agored, er mwyn i'r plant allu symud yn rhydd. Maent yn cynnig cegin â'r cyfarpar priodol ar y safle, lle mae byrbrydau a phrydau maethlon yn cael eu paratoi. Mae'r lleoliad wedi cofrestru â'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn cynllunio ac yn addasu'r ardaloedd dysgu ac yn cynnig dodrefn o ansawdd dda ac amrywiaeth o adnoddau sy'n briodol i oedran y plant. Er enghraifft, adnoddau byd bach megis anifeiliaid fferm. Gwelsom y plant yn mwynhau'r gornel stori sy'n cynnig amrywiaeth o lyfrau, cymeriadau a phypedau. Mae'r bobl sy'n

rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio yn gysylltiedig â diddordebau a syniadau'r plant. Maent yn darparu amrywiaeth gyffrous o adnoddau naturiol i sbarduno chwilfrydedd y plant megis darnau rhydd, pren, rhisgl a chregyn. Ni welsom y plant yn chwarae yn ardal awyr agored y lleoliad yn ystod ein hymweliad, ond mae'r ardal hon yn cynnig mwy o adnoddau i annog chwarae'n gorfforol mewn ardal ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth ac mae rheolaeth y lleoliad wedi datblygu'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf, gan gynnig cysondeb a sefydlogrwydd. Maent wedi bodloni meysydd o ddiffyg cydymffurfio ac maent yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol a chynhwysfawr, sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth yn gywir. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu polisïau a gweithdrefnau clir sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol, neu pan fydd angen. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol â'u haelodau o staff gan greu ethos cadarnhaol iawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn drefnus ac yn cadw cofnodion mewn modd cyfrinachol. Er enghraifft, mae ffeiliau'r staff a chofnodion y plant yn gywir ac yn gyfredol.  Maent yn cadw dogfennau sy'n ymwneud â chludiant plant ar gyfer eu casglu o'r ysgol, ac mae tystysgrifau'n cael eu cadw'n gyfrinachol ar y safle.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn myfyrio ar y lleoliad a'u hymarfer ac yn eu gwerthuso. Maent yn dosbarthu holiaduron ac yn casglu safbwyntiau'r ymarferwyr, y plant a'r rhieni er mwyn paratoi ar gyfer eu hadroddiad hunanwerthuso nesaf. Maent yn gweithio'n galed i gynnal a gwella eu gwasanaeth gofal drwy wrando'n ofalus ar yr hyn sydd gan y bobl a'r plant i ddweud. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i welliant parhaus.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn cefnogi eu staff mewn perthynas â'u datblygiad parhaus. Maent yn sicrhau bod ganddynt raglen recriwtio a sefydlu staff glir ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal sesiynau goruchwylio rheolaidd a chyfarfodydd arfarnu blynyddol ac yn cynllunio ar gyfer hyfforddiant staff ac anghenion unigol ar gyfer y dyfodol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwyr ac arweinwyr sy'n hawdd mynd atynt a'u bod yn hapus yn gweithio yn y lleoliad. Mae'r staff yn hapus i gynnig gwybodaeth am arferion dyddiol, cyfrifoldebau, diogelwch a chyfleoedd dysgu newydd.

Dywedodd y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthym eu bod yn falch o'r partneriaethau cryf sydd wedi cael eu meithrin â'r rhieni a manteision adborth llafar dyddiol â rhieni ynghyd â thrwy eu system electronig. Gwelsom enghreifftiau o sut mae'r lleoliad yn rhannu profiadau'r plant drwy'r dull hwn megis recordio'r cyngerdd Nadolig â'r rhieni yn cydnabod eu gwerthfawrogiad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan y plant gyfleoedd i

fod yn rhan o'r gymuned ac yn ystod ein hymweliad, gwelsom y plant yn mwynhau mynd ar daith gerdded natur leol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad wasanaethau casglu o'r ysgol hirsefydledig â sawl ysgol leol a gwelsom fod hyn yn gweithio'n effeithiol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 28 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod pob ffeil staff yn cynnwys dau eirda. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 22 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y polisi diogelu yn cynnwys y wybodaeth gywir mewn perthynas â Swyddogion Diogelu Dynodedig y lleoliad a rhaid iddo sicrhau bod y staff yn gallu rhoi'r polisi ar waith yn ymarferol. | Cyflawnwyd |
| 20 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod pob aelod o'r staff gofal yn dilyn arferion hylendid cadarn a sicrhau eu bod yn hyrwyddo ac yn darparu ar gyfer llesiant plant perthnasol. | Cyflawnwyd |
| 21 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod darpariaeth bwyd y gwasanaeth yn diwallu anghenion y plant. | Cyflawnwyd |
| 29 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod y staff yn cael eu goruchwylio a'u harfarnu'n rheolaidd a sicrhau bod tystiolaeth o gofnodion datblygiad proffesiynol yn cael eu cadw. | Cyflawnwyd |
| 31 | Rhaid i'r darparwr sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i AGC am bob newid i'r staff. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau |

| | |
|---|---|
| | Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Sicrhau bod y staff yn parhau i ddatblygu ac ymgorffori'r broses gynllunio er mwyn helpu i gynllunio camau nesaf chwarae, dysgu a datblygiad y plant. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/04/2024